

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2018

11.00 - 14.50

Prifysgol Abertawe

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:

Yr Athro Iwan Davies (yn y gadair)
William Callaway
Nia Elias
Yr Athro Jerry Hunter
Gwilym Dyfri Jones
Dr Hefin Jones
Pedr ap Llwyd
Gareth Pierce
Llinos Roberts
Yr Athro Hywel Thomas
Ieuan Wyn

Sylwedyddion:

Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Angharad Lloyd Williams (Grŵp Llandrillo Menai)

Swyddogion:

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Catherine Rees, Ysgrifennydd
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth

Ymddiheuriadau:

Dr Haydn E Edwards
Dr Rhodri Llwyd Morgan
Gethin Morgan (UCMC/NUS Wales)
Gwyneth Sweatman (UCMC/NUS Wales)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	<p>1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan Dr Hefin Jones, Deon y Coleg.</p> <p>1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.</p> <p>1.3 Dymunwyd yn dda i Dr Haydn Edwards a'i briod, gan nodi bod y ddau wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.</p>		
2. Datganiadau o ddiddordeb	<p>2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.</p> <p>2.2 Datganodd Gwilym Dyfri Jones ddiddordeb yn Eitem 12 – Addysg Gychwynol Athrawon am ei fod yn gyflogedig gan sefydliad sy'n gweithredu fel canolfan hyfforddi athrawon.</p> <p>Ar y pwynt hwn cyrhaeddodd yr Athro Iwan Davies i gadeirio'r cyfarfod.</p>		
3. Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant (Eitemau 6 A/B) CYFRINACHOL	<p>Cofnodion y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant</p> <p>3.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 12 Hydref a 6 Tachwedd 2018.</p> <p>3.2 Yn deillio o Adroddiad Gwerthuso'r Cyfarwyddwyr holwyd ynghylch hwyluso'r ymgysylltu rhwng y Cyfarwyddwyr ac</p>		

	<p>aelodau'r Llys. Atgoffwyd y Cyfarwyddwyr bod croeso iddynt rwydweithio â'r aelodau yn dilyn cyfarfod y Llys.</p> <p>Penodi Cyfarwyddwyr</p> <p>3.3 Yn dilyn cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd ar argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant trafodwyd a chymeradwywyd y penodiadau canlynol i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gareth Pierce a Nia Elias o 28 Tachwedd 2018 ar gyfer dau le gwag • Angharad Lloyd Williams o 1 Mawrth 2019 ar ddiwedd cyfnod yr Athro Iwan Davies • Meri Huws o 1 Ebrill 2019 ar ddiwedd cyfnod Ieuan Wyn. <p>3.4 Yn ystod y drafodaeth nodwyd yr angen ar gyfer arbenigedd cyfreithiol ar y Bwrdd yn dilyn diwedd tymor yr Athro Iwan Davies.</p> <p>Ar y pwynt hwn ymunodd a chroesawyd Nia Elias a Gareth Pierce fel aelodau newydd o'r Bwrdd; ac Angharad Lloyd Williams fel sylwedydd ar gyfer y cyfarfod hwn.</p>		
<p>4. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 20 Mehefin 2018</p> <p>(Eitem 3)</p>	<p>4.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2018.</p>		
<p>5. Materion yn codi</p>	<p>5.1 <u>Eitem 6.2 – Gweithdrefn benodi Cadeirydd</u> Adroddwyd bod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant wedi ail edrych ar y broses penodi</p>		

	Cadeirydd ac wedi penderfynu nad ydynt yn ffafrio newid y broses gyfredol.		
6. Materion Cyfansoddiadol (Eitem 5)	<p>Trefniadau'r Llys a'r Cynulliad Blynyddol</p> <p>6.1 Nodwyd y cynhelir cyfarfod blynyddol y Coleg (Llys) ar 19 Mawrth 2019 am 4.00 y prynhawn ym Mhrifysgol Bangor.</p> <p>6.2 Nodwyd y cynhelir y Cynulliad Blynyddol ar 19 Mawrth 2019 am 6.00 yr hwyr yn Neuadd Powys, Prifysgol Bangor.</p> <p>Cylchoedd gorchwyl</p> <p>6.3 Trafodwyd a chymeradwywyd y diwygiadau, a drafodwyd yn y pwyllgorau unigol yn wreiddiol, i'r cylchoedd gorchwyl canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant • Pwyllgor Archwilio a Risg • Bwrdd Academaidd <p>6.4 Argymhellwyd rhai gwelliannau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'i gymeradwyo.</p> <p>6.5 Cytunwyd i gylchredeg Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu ddrafft y Coleg at aelodau'r Bwrdd. Adroddwyd y bydd angen ychwanegu iddi yn ddibynnol ar ofynion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau.</p>	<p>Diwygio cylch gorchwyl y PCDC</p> <p>Cylchredeg Strategaeth Farchnata</p>	<p>Rhagfyr 2018</p> <p>Rhagfyr 2018</p>
7. Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol (Eitem 7i)	<p>Cofnodion Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol</p> <p>7.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 19 Medi 2018.</p>		

<p>(Eitem 7iii)</p>	<p>7.2 Argymhellwyd ail-ystyried amserlen ymgeisio ar gyfer safon Buddsoddwyr mewn Pobl yn sgîl y llwyth gwaith a fyddai'n deillio o'r broses.</p> <p>Rheoliadau Ariannol diwygiedig</p> <p>7.3 Adroddwyd bod Rheoliadau Ariannol y Coleg wedi'u diwygio yn dilyn trafodaeth fanwl yn y pwyllgor sy'n adlewyrchu newidiadau diweddar yn nhrefniadau cyllido'r Coleg. Cytunwyd i gylchredeg y rheoliadau, er gwybodaeth.</p> <p>Polisi Caffael</p> <p>7.4 Derbyniwyd polisi caffael newydd y Coleg sy'n ddogfen ar wahân i'r Rheoliadau Ariannol erbyn hyn.</p>	<p>Ystyried amserlen BmP</p> <p>Cylchredeg Rheoliadau Ariannol diwygiedig</p>	<p>Ionawr 2019</p> <p>Rhagfyr 2018</p>
<p>8. Pwyllgor Archwilio a Risg</p> <p>(Eitem 8i)</p>	<p>Pwyllgor Archwilio a Risg</p> <p>8.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2018.</p> <p>8.2 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 24 Hydref 2018, gan William Callaway, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd yn benodol bod argymhellion yr archwilwyr mewnol ac allanol tan Chwefror 2017 wedi'u gweithredu'n llawn ac felly wedi eu cwblhau • Nododd hefyd y bydd adolygu a monitro buddsoddiadau'r Coleg yn symud dan ofal y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol maes o law. <p>Cyfrifon blynyddol archwiliedig y Coleg 2017/18</p>		

<p>(Eitem 8iii)</p> <p>(Eitem 8iv)</p> <p>(Eitem 8v)</p>	<p>8.3 Derbyniwyd y cyfrifon blynyddol archwiledig ar gyfer 2017/18 i'w cyflwyno'n ffurfiol i'r Llys ar 19 Mawrth 2019.</p> <p>Y Gofrestr Risg</p> <p>8.4 Cafwyd adroddiad ar y diwygiadau i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf gan William Callaway. Trafodwyd y risgiau ac yn benodol ansicrwydd yn y sector addysg uwch yn gyffredinol a sut y gallai hynny effeithio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn benodol. Adroddodd y Prif Weithredwr bod y Coleg yn ymwybodol o'r ffactorau hyn a bod trafodaethau manwl wedi digwydd yn y cyfarfodydd cynllunio gyda'r sefydliadau unigol. Bydd adroddiad blynyddol ar newidiadau mewn darpariaeth yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Mehefin. Derbyniwyd y Gofrestr Risg.</p> <p>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio Risg</p> <p>8.5 Derbyniwyd adroddiad blynyddol cyntaf y pwyllgor.</p>	<p>Nodi risg</p>	<p>Rhagfyr 2018</p>
<p>9. Bwrdd Academaidd</p> <p>(Eitem 9)</p>	<p>9.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2018.</p> <p>9.2 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 10 Hydref 2018, gan y Deon, Dr Hefin Jones.</p> <p>9.3 Adroddwyd y cafwyd cyflwyniad a thrafodaeth ar ddata cyfrwng Cymraeg. (I'w drafod gan y Bwrdd yn Eitem 11).</p> <p>9.4 Adroddwyd bod cynrychiolwyr y myfyrwyr wedi cyflwyno papur ar drefniadau ar gyfer cyflwyno gwaith yn y Gymraeg pan fod cyfrwng yr addysgu yn Saesneg, a bod cyfle i drafod y mater ymhellach yn y cyfarfodydd cangen.</p>		

	<p>9.5 Nodwyd y bydd cynhadledd flynyddol mewn perthynas â'r cynllun darlithwyr cysylltiol yn digwydd ym mis Mehefin, ac y bydd nifer o wobrau yn cael eu dyfarnu am y tro cyntaf i gydnabod blaengaredd mewn addysgu ayb.</p> <p>9.6 Nodwyd bod y Strategaeth Ehangu Mynediad bellach yn eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd Academaidd.</p> <p>9.7 Adroddodd yr Athro Jerry Hunter, Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi, ar bwysigrwydd cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF). Adroddodd yn ogystal bod y pwyllgor yn y broses o ddatblygu pencampwyr ymchwil ar gyfer y REF.</p> <p>9.8 Adroddodd y Prif Weithredwr ar ymgynghoriad â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) ynghylch canllawiau asesu yn y Gymraeg. Mae argymhellion y Coleg wedi'u derbyn. Yn hyn o beth bydd safonau 'Mae gen i hawl' Comisiynydd y Gymraeg ar brifysgolion, colegau a sefydliadau addysgol yng Nghymru yn amserol wrth ddiogelu hawliau myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Croesawodd Dr Cliona O'Neill y gwaith hwn.</p>		
<p>10. Adroddiad y Prif Weithredwr (Eitem 10)</p>	<p>10.1 Derbyniwyd crynodeb llafar gan y Prif Weithredwr o'r adroddiad ysgrifenedig oedd wedi ei gylchredeg o flaen llaw.</p> <p>Cynllun Gweithredu 2018/19</p> <p>10.2 Derbyniwyd adroddiad cynnydd ar y targedau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Coleg 2018/19 (ar y bwrdd).</p> <p>Y Gymraeg fel pwnc</p>		

	<p>10.3 Adroddwyd bod y Coleg yn arwain prosiect 'Y Gymraeg ar Daith' am yr eildro eleni. Mae'r prosiect yn ymgysylltu â disgyblion blwyddyn 10/11.</p> <p>10.4 Cytunwyd i ystyried cynnal trafodaeth ar heriau addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn yr ysgolion mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.</p> <p>Partneriaethau</p> <p>10.5 Adroddwyd bod y Coleg yn disgwyl gwahoddiad swyddogol i ddod yn aelod cysylltiol o GolegauCymru. Ymunodd y Prif Weithredwr gyda thaith a drefnwyd gan GolegauCymru a Llywodraeth Cymru i Wlad y Basg ar 23-25 Hydref 2018.</p> <p>10.6 Adroddwyd y bu'r Prif Weithredwr yn cyflwyno darlith ar waith y Coleg yn Nulyn ar 13-14 Tachwedd 2018. Bwriedir ystyried ffurfioli partneriaeth gyda Choleg Prifysgol Dulyn yn y dyfodol.</p> <p>Gwerddon</p> <p>10.7 Adroddwyd bod yr Athro Aled Gruffydd Jones wedi'i wahodd i baratoi erthygl ar hanes a chyfraniad <i>Gwerddon</i>. Nodwyd y bydd angen talu sylw at archif y Coleg maes o law.</p> <p>Cynllunio Academaidd</p> <p>10.8 Adroddwyd bod y cyfarfodydd cynllunio â'r prifysgolion wedi'u cwblhau am eleni. Bwriedir cynnal ymarferiad dichonolrwydd er mwyn sbarduno buddsoddiad mewn pynciau nad oedd wedi eu cynnwys yn y cynllun staffio.</p>	<p>BC i drafod heriau Cymraeg fel pwnc mewn ysgolion</p>	<p>Yn y dyfodol</p>
--	---	--	---------------------

	<p>10.9 Croesawyd budd strategol y cyfarfodydd cynllunio a nodwyd yr hinsawdd heriol o ran grantiau ffioedd; demograffeg h.y. llai o boblogaeth ifanc; sefydliadau Russell Group yn denu myfyrwyr; a Brexit. Cytunwyd bod angen cynnal lefel darpariaeth; hybu cynnydd; a rhagweld meysydd newydd i'w hyrwyddo.</p> <p>10.10 Adroddodd y Prif Weithredwr ar y cynllun darlithwyr cysylltiol a allai liniaru'r sefyllfa ac atgyfnerthu'r gymuned cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Swyddog Cangen Prifysgol Glyndŵr</p> <p>10.11. Adroddwyd ar y bwriad i newid y trefniant ar gyfer Swyddog Cangen y Coleg ym Mhrifysgol Glyndŵr er mwyn cynyddu'r amser a neilltuir i Goleg Cambria.</p> <p>Diweddariadau cyffredinol ar waith y Coleg</p> <p>10.12 Derbyniwyd adroddiadau ysgrifenedig mewn perthynas â Marchnata a Chyfathrebu; Hyfforddiant Academaidd a Datblygu Staff; <i>Gwerddon</i> a phrosiectau cyhoeddi eraill; Cynllun Darlithwyr Cysylltiol; a Chynllun Cymraeg Gwaith, er gwybodaeth.</p>		
<p>11. Data a thargedau (Eitem 11)</p>	<p>11.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gyd-destun yr eitem ar ddata myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Adroddodd y bu sylw yn y wasg ym mis Gorffennaf 2018 i'r canfyddiad bod lleihad yn y nifer myfyrwyr addysg uwch yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2016/17. Dosbarthwyd Bwletin a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru eisoes at aelodau'r Bwrdd. Cyflwynodd y Coleg adroddiad, ar gais y Llywodraeth, ym mis Medi, yn</p>		

	<ul style="list-style-type: none"> • Bod y Coleg yn cefnogi'r cyfeiriad y mae Llywodraeth Cymru yn symud tuag ato o ran cynllunio gweithlu AGA • Bod y Coleg yn barod i gynorthwyo ym mha bynnag ffordd briodol y gall wneud hynny • Bod pryder y gallai dileu cynlluniau a mentrau cyfredol, gan gynnwys y Dystysgrif Cymhwysedd Athrawon, cyn bod fframwaith amgen yn ei le a fydd, yn y man lleiaf, yn cynnal y gefnogaeth ieithyddol bresennol, fod yn wrthgynhyrchiol <p>12.4 Yn ystod y drafodaeth nodwyd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryder ynghylch cyflwyno newidiadau heb ystyried y canlyniadau posibl o ran y Gymraeg • Diffyg cyswllt gyda Strategaeth Iaith y Llywodraeth a thargedau ar gyfer niferoedd athrawon <p>12.5 Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn parhau i gyfrannu at y trafodaethau mewn perthynas ag Addysg Gychwynnol Athrawon.</p>		
<p>13. Datblygiadau ôl-16 (Eitem 13)</p>	<p>13.1 Rhoddwyd cyflwyniad ar ddatblygiadau ôl-16 gan y Cofrestrydd. Eglurwyd y sefyllfa gyfredol o ran adnoddau i weithredu'r Cynllun.</p> <p>13.2 Croesawyd arweiniad y Coleg yn y maes ac yn ystod y drafodaeth nodwyd sylwadau'r aelodau i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar weithgareddau 2019/20. Adroddwyd bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 20 Mawrth 2019.</p>		

	<p>13.3 Cytunwyd mewn egwyddor bod y Coleg yn dod yn aelod cysylltiol o Golegau Cymru yn amodol ar gytuno'r manylion.</p> <p>13.4 Nodwyd y bwriad i ffurfioli perthynas y Coleg gyda sefydliadau addysg bellach gan gynnwys sefydlu canghennau o'r Coleg.</p>		
<p>14. Cymrodyr er anrhydedd 2019</p> <p>CYFRINACHOL</p>	<p>14.1 Cymeradwywyd gwahodd Andrew Green, yr Athro Deri Tomos a Catrin Dafydd i dderbyn Cymrodoriaeth adeg y Cynulliad Blynyddol ym Mangor ar 19 Mawrth 2019. Pwysleisiwyd bod yr enwau'n parhau'n gyfrinachol tan y cyhoeddiad swyddogol.</p>		
<p>15. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf</p>	<p>15.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod y Llys, 19 Mawrth 2019, Prifysgol Bangor • 20 Mawrth 2019, Prifysgol Bangor • 25 Mehefin 2019, Aberystwyth <p>15.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith.</p> <p>15.3 Diolchwyd i staff Prifysgol Abertawe am eu cymorth gyda threfnu'r cyfarfod.</p> <p>15.4 Estynnodd y Prif Weithredwr ddiolch i'r Athro Iwan Davies am gadeirio'r cyfarfod gan nodi mai dyma ei gyfarfod olaf fel aelod o'r Bwrdd. Diolchwyd iddo am ei wasanaeth a'i gefnogaeth ar hyd y blynyddoedd, ac yn benodol mewn perthynas â'r adolygiad llywodraethiant.</p>		